Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol

Cyhoeddwyd Rhagfyr 2016

Cyflwyniad

1. Mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau a gaiff eu rheoleiddio a'u dyfarnu i ddysgwyr yng Nghymru yn gymwysterau galwedigaethol. Ar adeg drafftio'r ddogfen hon, rydym yn rheoleiddio 121 o gyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Yn hanesyddol, mae rheoleiddwyr wedi canolbwyntio llai ar gymwysterau galwedigaethol na chymwysterau TGAU a Safon Uwch, ond mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu unioni'r anghydbwysedd hwnnw.

2. Yn y Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol hon, rydym yn nodi sut y byddwn yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i ymdrin â'n Prif Nodau mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol. Rydym yn nodi'r canlynol:

   • cefndir y broses o reoleiddio cymwysterau galwedigaethol a'r cyd-destun ar gyfer gwneud hynny;
   • sut rydym yn bwriadu parhau â rhaglen o adolygiadau sector fel ein dull gweithredu craidd mewn perthynas ag adolygu cymwysterau galwedigaethol mewn modd strategol - a'r drefn adolygu rydym yn bwriadu ei dilyn;
   • y ffyrdd eraill rydym yn bwriadu rheoleiddio cymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys:
   - dynodi
   - cyllid grant
   - monitro
   - ymyriadau rheoliadol
   - comisiynu a datblygu
   - gwaith ymchwil
   • sut y byddwn yn gwerthuso'r broses o weithredu'r strategaeth.

Cefndir a chyd-destun

Diffiniadau a chwmpas

3. Rydym yn ystyried cymwysterau galwedigaethol fel y cymwysterau hynny a gaiff eu dyfarnu a'u hardystio gan 'gorff dyfarnu', a astudir gan ddysgwyr 14 oed neu'n hŷn, ac sy'n asesu **gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â'r byd gwaith.**

4. Mae rhai 'mannau llwyd'. Un enghraifft yw Bagloriaeth Cymru, ond rydym yn rheoli'r cymhwyster hwn fel cymhwyster 'cyffredinol', felly nid yw'n rhan o gwmpas y strategaeth hon. Enghraifft arall yw'r gyfres cymwysterau Sgiliau Hanfodol - ac rydym yn rheoli'r gyfres hon fel cymwysterau galwedigaethol. Ceir cymwysterau 'cyffredinol' y gellir hefyd eu hystyried fel cymwysterau galwedigaethol - er enghraifft, cymwysterau TGAU a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol - ac rydym o'r farn bod y rhain o fewn cwmpas ein hadolygiadau sector.

5. Er bod natur llawer o gymwysterau gradd yn alwedigaethol, ni chaiff graddau eu cynnwys o fewn cwmpas ein swyddogaethau rheoliadol.

6. Sefydlwyd Cymwysterau Cymru o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ('y Ddeddf') gyda dau Brif Nod:

   - sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn llwyddo'n effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
   - ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

7. Wrth ymdrin â'r Prif Nodau hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried, ymhlith pethau eraill, wyth 'mater' allweddol sy'n ymwneud â'r canlynol:
   - twf cynaliadwy yn economi Cymru;
   - defnyddio'r Gymraeg;
   - ystod, natur a threfniadau asesu cymwysterau;
   - gofynion cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau;
   - y gofynion o ran gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth gyfredol;
   - cymwysterau cymaradwy mewn gwledydd eraill;
   - effeithlonrwydd a gwerth am arian;
   - rolau a chyfrifoldebau cymharol cyrff dyfarnu, darparwyr dysgu, Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a phartïon eraill â diddordeb.

8. Wrth ddatblygu ein Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol, rydym wedi ystyried y ffordd orau o roi sylw i'r wyth 'mater' hyn. Rydym yn awyddus i roi amlygrwydd penodol i anghenion cyflogwyr ac, yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i'r rhan y mae cymwysterau galwedigaethol yn ei chwarae o ran sicrhau cynaliadwyedd yr economi yn y dyfodol.

Buddiannau a heriau cymwysterau sy'n berthnasol i dair gwlad

9. Nid yw dysgwyr ifanc yng Nghymru sy'n paratoi i weithio bob amser yn rhagweld mai dim ond yng Nghymru y byddant yn gweithio: mae llawer ohonynt yn ystyried y farchnad gyflogaeth yn Lloegr (mater o groesi'r ffin yn unig i lawer), neu hyd yn oed ymhellach i ffwrdd. Felly mae sicrhau y caiff yr un cymwysterau eu hastudio yng Nghymru ac yn Lloegr o fudd i ddysgwyr a chyflogwyr. Mae'r mwyafrif helaeth o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru hefyd ar gael yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Mae angen i ni geisio sicrhau na fydd unrhyw gamau a gymerir gennym i wella effeithiolrwydd cymwysterau yng Nghymru yn lleihau'r gallu i'w trosglwyddo - ond nid oes angen i hyn gyfyngu ar y cyfleoedd i wella neu ddiwygio lle bo angen gwneud hynny.

10. Mae un her sy'n gysylltiedig â chymwysterau sy'n berthnasol i dair gwlad yn ymwneud â'r cyfleoedd sydd ar gael i asesu dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai cyrff dyfarnu wedi cynnig asesiadau a gwasanaethau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae eraill wedi ei chael hi'n anodd diwallu anghenion mewn ffordd sy'n ddichonadwy yn ariannol. Mewn rhai achosion, mae Cymwysterau Cymru yn cynnig cymorth i gyrff dyfarnu er mwyn eu hannog a'u helpu i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg.

11. Mae nifer o ddatblygiadau polisi sylweddol ar waith yn Lloegr a fydd yn cael effaith ar y farchnad cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru ac yn Lloegr. Er enghraifft, mae newidiadau yn cael eu rhoi ar waith mewn perthynas â phrentisiaethau yn Lloegr, ac mewn rhai achosion, ni chaiff cymwysterau allweddol eu defnyddio mwyach fel rhan o'r broses hon. Gallai hyn leihau'r galw am gymwysterau yn y diwydiannau hynny a'r cyflenwad ohonynt. Mae polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau yng Nghymru yn parhau i esblygu a cheir pwyslais cryf ar bwysigrwydd prentisiaethau wrth ategu twf yn yr economi. Felly rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru er mwyn deall goblygiadau'r newidiadau hyn ar brentisiaethau yng Nghymru.

12. Cyhoeddodd Cynllun Sgiliau Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd yn 2016, fwriadau sylweddol i symleiddio'r farchnad gymwysterau i ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed yn Lloegr. Dros amser, mae hyn yn debygol o leihau'n sylweddol nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael ledled y DU, yn ogystal ag yn Lloegr. Os na fydd rhai cymwysterau galwedigaethol bellach yn gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yn Lloegr, mae'n bosibl na fydd cyrff dyfarnu yn barod i barhau i gynnig y cymwysterau hyn yng Nghymru yn unig: mae'r farchnad yn gymharol fach. Nid yw effeithiau cyffredinol y newidiadau cyfun hyn ar gyrff dyfarnu ac ar eu modelau busnes yn hysbys eto - ond gallent fod yn sylweddol.

13. Yng Nghymru, mae rhaglen diwygio'r cwricwlwm sylweddol ar waith mewn ymateb i 'adroddiad Donaldson' - 'Dyfodol Llwyddiannus'. Rydym yn awyddus i ddeall y rhan y bydd dysgu galwedigaethol yn ei chwarae o fewn y cwricwlwm newydd hwnnw.

14. O ystyried y newidiadau ehangach hyn, mae'n amlwg y bydd yn rhaid i ni gydgysylltu unrhyw waith a wneir neu a gynigir gennym mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol 14-16 oed â'r datblygiadau hyn.

Nid yw pob cymhwyster galwedigaethol yr un peth

15. Mae cymwysterau galwedigaethol yn mesur p'un a yw dysgwyr yn meddu ar y sgiliau a/neu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol i'w paratoi i weithio'n gyffredinol, neu'n benodol o fewn eu dewis yrfa. Maent hefyd yn galluogi cyflogwyr i recriwtio a datblygu staff yn hyderus. Mae'n bosibl na fydd y dull gweithredu cywir mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol ar gyfer un math o waith yn addas ar gyfer cymwysterau mewn math arall o waith.

16. Caiff cymwysterau galwedigaethol eu hastudio gan ddysgwyr ar sawl oedran ac ar sawl cam ac mewn amrywiaeth o leoliadau. Yn eu plith ceir:

- rhwng 14 ac 16 oed, mewn ysgolion, lle bydd dysgwyr yn astudio **cymwysterau galwedigaethol cychwynnol** ochr yn ochr â chymwysterau TGAU mwy traddodiadol. Weithiau mae'r opsiynau galwedigaethol hyn yn gymwysterau TGAU hefyd; weithiau, byddant yn rhan o gymwysterau eraill megis cymwysterau BTEC. Mae'r cyrsiau sy'n arwain at y cymwysterau hyn yn cynnig cyflwyniad i feysydd gwaith, ond ni chaiff cymhwysedd ei asesu fel rhan ohonynt. Mae'r cymwysterau hyn ar Lefel 1[1] gan amlaf ac fe'u hastudir yn aml ar y cyd â Bagloriaeth Cymru ar lefel Genedlaethol a Sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 4;

- yn 16-19 oed, mewn colegau addysg bellach, lle bydd dysgwyr yn astudio **rhaglenni dysgu llawn amser** sy'n arwain at un cymhwyster galwedigaethol neu fwy ar Lefelau 1, 2 neu 3. Mae'n bosibl y bydd y dysgwyr hyn naill ai'n awyddus i barhau i astudio mewn lleoliad addysg uwch neu i fynd yn syth i mewn i gyflogaeth - er na fyddant o bosibl yn siŵr ar ddechrau'r rhaglen. Bydd y dysgwyr hyn yn aml hefyd yn astudio Bagloriaeth Cymru ôl-16 neu Uwch;

- yn 16-18 oed, mewn **hyfforddeiaethau** a ddarperir drwy ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, lle bydd dysgwyr yn astudio cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill ar raglenni sy'n cyfuno dysgu â phrofiad gwaith, fel arfer ar Lefelau 1 neu 2, er mwyn paratoi dysgwyr i symud ymlaen i brentisiaeth neu waith;

- yn 16+ oed, mewn **prentisiaethau** a ddarperir drwy ddysgu seiliedig ar waith, lle caiff dysgwyr eu cyflogi fel prentisiaid ond y byddant hefyd yn cwblhau rhaglen dysgu ac asesu, ar Lefel 2 neu Lefel 3. Ceir prentisiaethau lefel uwch hefyd i ddysgwyr hŷn;

- yn 18+ oed, mewn **cyflogaeth,** lle bydd dysgwyr yn ymgymryd â dysgu sy'n arwain at gymwysterau, er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau i'w helpu i ddatblygu o fewn eu swyddi cyfredol neu y tu hwnt i'r swyddi hynny. Bydd dysgwyr yn y grŵp hwn yn aml yn gweithio tuag at ryw fath o gydnabyddiaeth broffesiynol neu statws proffesiynol o fewn eu swyddi presennol neu swyddi yn y dyfodol. Mae'n bosibl y byddant yn dysgu 'wrth weithio' a/neu mewn darparwr dysgu o unrhyw ddisgrifiad;

Gall oedolion nad ydynt mewn cyflogaeth hefyd astudio ar gyfer cymwysterau, er mwyn gwella eu cyflogadwyedd.

[1] *fel y nodir yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.*

Ein Strategaeth - dull gweithredu craidd: Adolygiadau Sector

Rhesymeg a chynllun peilot

17. Mae angen i gymwysterau galwedigaethol adlewyrchu anghenion cyflogwyr ar bob oed a cham - hyd yn oed os cânt eu hastudio fel cam cychwynnol na fydd yn arwain yn uniongyrchol at gyflogaeth. Yn hytrach nag ystyried un oedran, neu un cam, ar y tro, rydym yn adolygu cymwysterau yn ôl sectorau - gan ganolbwyntio ar y cymwysterau o fewn sectorau cyflogaeth penodol.

18. Yn ystod ein blwyddyn gyntaf, gwnaethom gynnal cynllun peilot o'r dull hwn o adolygu cymwysterau yn ôl sectorau gan adolygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae). Gwnaethom ddatblygu model adolygu a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid, ymgysylltu â dysgwyr, adolygiadau technegol o gymwysterau enghreifftiol, dadansoddi data ac astudiaeth gymharol ryngwladol fach. O ganlyniad i'r wybodaeth yn deillio o'r broses hon, llwyddwyd i nodi'r camau gweithredu yr oedd angen eu cymryd er mwyn gwella cymwysterau yn y sector hwn. Cyhoeddwyd ein canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2016. Cafodd yr Adolygiad groeso cynnes gan randdeiliaid, gan gynnwys cyflogwyr, a ddywedodd wrthym faint yr oeddent yn gwerthfawrogi dull gweithredu o'r fath. Rydym wedi mireinio ein dull gweithredu, gan gynnwys ystyried dadansoddiad annibynnol, a byddwn yn bwrw ati i gynnal adolygiadau tebyg mewn sectorau eraill.

19. Bydd Adolygiadau Sector yn darparu sail i'n gwaith mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol yn ystod y pum mlynedd nesaf, wedi'i ategu gan amrywiaeth o waith trawsbynciol a pharhaus a wneir gennym fel rhan o'n gwaith beunyddiol fel rheoleiddiwr.

Nodau ac amcanion adolygiadau yn y dyfodol

20. Gan adeiladu ar brofiad yr adolygiad cyntaf, bydd pob adolygiad dilynol yn anelu at nodi i ba raddau y mae cymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector hwnnw yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr (o 14 oed ymlaen), cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.

21. Bydd amcanion pob adolygiad fel a ganlyn:
    - meithrin dealltwriaeth o'r tirlun cymwysterau yn y sector;
    - nodi safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas ag effeithiolrwydd cymwysterau sy'n bodoli eisoes a'r system gymwysterau wrth ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr yn y sector a sefydliadau addysg uwch;
    - ystyried i ba raddau y mae'r cymwysterau nad ydynt yn raddau a gaiff eu hastudio fwyaf cyffredin yn y sector yn dechnegol effeithiol ac yn addas at y diben;
    - nodi p'un a oes unrhyw wersi i'w dysgu o gymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector mewn gwledydd eraill cymaradwy;
    - nodi p'un a oes unrhyw gamau gweithredu y dylai Cymwysterau Cymru eu cymryd neu argymell y dylai eraill eu cymryd i wella effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector - a hyrwyddo hyder y cyhoedd ynddynt.

Llinellau ymholi craidd

22. Wrth gynnal pob adolygiad, byddwn yn canolbwyntio ar y llinellau ymholi craidd canlynol, sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ein materion statudol:
    - a yw **ystod a natur** y cymwysterau sydd ar gael yn y sector yn ddigonol?
    - a yw'r **trefniadau asesu** ar gyfer y cymwysterau hynny yn effeithiol, ac a ydynt yn ddibynadwy ac yn ddilys?
    - a yw'r ddarpariaeth o ran **asesiadau cyfrwng Cymraeg** yn ddigonol?
    - a gaiff gofynion **cyflogwyr, addysg uwch a'r proffesiynau** eu bodloni?
    - a yw'r gofynion o ran gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn adlewyrchu **gwybodaeth gyfredol a'r arfer gorau**?
    - a yw'r cymwysterau yn **gymaradwy** â chymwysterau tebyg mewn mannau eraill?
    - a gaiff cymwysterau yn y sector eu darparu'n **effeithlon** ac a ydynt yn cynnig **gwerth am arian**?

Methodoleg

23. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cymwysterau hynny a ddefnyddir ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus - ond bydd tîm yr adolygiad hefyd yn gwrando ar dystiolaeth am fylchau yn y farchnad neu am gymwysterau nas ariennir ond sy'n holl bwysig. Caiff gweithgareddau'r adolygiad eu llywio gan ddull gweithredu yn seiliedig ar ymchwil mewn perthynas â nodi cwmpas pob adolygiad a chasglu tystiolaeth. Caiff hyn ei ategu gan gyfranogiad un arbenigwr sector neu fwy er mwyn rhoi cyngor arbenigol i dîm yr adolygiad am y tirlun a'r problemau ym mhob sector.

24. Bydd pob adolygiad yn cynnwys cryn dipyn o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y canlynol:
    - cyfweliadau â chyflogwyr, darparwyr dysgu, sefydliadau addysgu uwch a phartïon eraill â diddordeb yn seiliedig ar waith ymchwil;
    - adolygiadau a dadansoddiadau ystadegol o'r data sydd ar gael;
    - gweithgareddau ymchwil penodol gyda dysgwyr cyfredol a dysgwyr diweddar;
    - ymgynghoriad ar-lein ar faterion sy'n dod i'r amlwg ac opsiynau gweithredu.

25. Byddwn yn defnyddio cyfuniad o adolygwyr arbenigol allanol a'n harbenigwyr cymwysterau mewnol i adolygu sampl o gymwysterau yn fanylach. Bydd y gwaith hwn yn ystyried y deunyddiau a gynhyrchir gan gyrff dyfarnu ac enghreifftiau o waith dysgwyr. Bydd elfen dadansoddi technegol pob adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar effeithiolrwydd sampl o adnoddau asesu cyfredol wrth lunio canlyniadau dilys mewn perthynas â'r cymhwyster.

26. Byddwn yn cynnal a/neu'n comisiynu rhywfaint o waith ymchwil desg er mwyn ystyried cymwysterau cymaradwy mewn gwledydd eraill.

27. Ar ôl cwblhau pob adolygiad, byddwn yn ystyried ein canfyddiadau ac yn gwerthuso effaith debygol a hyfywedd yr opsiynau gweithredu. Byddwn yn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau ac asesiad o'r effaith reoliadol. Ar ôl i ni nodi ein camau gweithredu dewisol, byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ac yn nodi'r camau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd a/neu ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu eu cymryd. Fel arfer, byddwn yn ymgynghori ymhellach ar gynigion gweithredu, gan nodi'r opsiynau a ystyriwyd gennym. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, lle y byddwn o'r farn bod angen gwneud hynny, byddwn yn gweithredu ar unwaith. Yn unol â'n diddordeb ehangach yn y system gymwysterau, gall ein camau gweithredu gynnwys rhoi cyngor i bartïon eraill mewn perthynas â'u rôl (rolau) yn y system.



Mae pob adolygiad yn wahanol - ni fydd canlyniadau un adolygiad o reidrwydd yr un peth â chanlyniadau'r adolygiad nesaf

28. Er mai un o ganlyniadau'r Adolygiad o'r Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedd cynnig cyfres newydd o gymwysterau i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru, mae'n annhebygol mai dyma fydd canlyniad pob adolygiad sector. Mae pob sector yn wahanol ac rydym yn rhagweld bod rhai o'r atebion i broblemau yn debygol o fod yn wahanol hefyd. Nodir yr amrywiaeth o gamau gweithredu y byddwn o bosibl yn eu cymryd yn ddiweddarach yn y ddogfen hon ym mharagraff 53.

29. Er y bydd llawer o'r materion a nodir gennym drwy adolygiad sector yn benodol ar gyfer y sector hwnnw, mae'n bosibl y bydd materion eraill yn drawsbynciol. Byddwn yn nodi themâu trawsbynciol ac yn ystyried y potensial ar gyfer camau gweithredu cyffredinol i ymdrin â hwy. Gall ein hadolygiadau sector hefyd annog darparwyr dysgu, cyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill i fyfyrio ar eu harferion eu hunain mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol ehangach a chymryd camau lle y bo'n briodol.

Trefn adolygiadau yn y dyfodol

30. Ar ôl dechrau gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae ein trefn arfaethedig ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar wybodaeth gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol am y meysydd blaenoriaeth o ran twf a meithrin sgiliau yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol o gofio ein dyletswydd i ystyried yr angen i hyrwyddo twf cynaliadwy yn yr economi. Mae'r drefn arfaethedig ar gyfer adolygiadau sector fel a ganlyn:

Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
Peirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni
Gwasanaethau ariannol
Gwasanaethau cwsmeriaid a manwerthu
Teithio a thwristiaeth
Lletygarwch ac arlwyo.

31. Ar unrhyw adeg, gallwn atal y broses a myfyrio ar y drefn sy'n weddill, ar ôl cynnal adolygiadau ar beirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni, oherwydd maint sylweddol y rhaglenni gwaith hyn a'r effaith sylweddol o ran darparu adnoddau ar eu cyfer. Gan ddibynnu ar raddau'r camau gweithredu sydd eu hangen, gall fod angen sicrhau bwlch rhwng unrhyw rai o'r adolygiadau arfaethedig er mwyn sicrhau bod y gwaith yn ymarferol o fewn ein hadnoddau cyfyngedig.

Cymwysterau nas cwmpesir gan adolygiadau sector

32. Nid yw'r ffaith bod sectorau eraill wedi'u hepgor yn golygu nad yw cymwysterau galwedigaethol mewn sectorau eraill yn bwysig - neu nad oes eu hangen yng Nghymru. Maent yn bwysig ac mae eu hangen. Fel rheoleiddiwr, mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd lle y byddwn yn cael yr effaith fwyaf ac rydym wedi dewis targedu ein hadolygiadau yn seiliedig ar feysydd lle mae twf economaidd wedi'i nodi. Nid yw'r ffaith na chynhelir adolygiad o'r sector yn golygu na all cyflogwyr mewn sector a chyrff dyfarnu gydweithio yn y ffordd arferol i adolygu a diwygio cymwysterau - neu ddatblygu cymwysterau newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr. Byddem yn disgwyl i'r gwaith hwn barhau, a byddwn yn parhau i reoleiddio cymwysterau ym mhob sector fel rhan o'n busnes arferol.

33. Pan fyddwn wedi cynnal mwy o'r adolygiadau a nodir uchod, byddwn yn pwyso a mesur ac yn ystyried p'un a ddylid bwrw ati i gynnal rhagor o adolygiadau sector. Yn y cyfamser, mae'r adran ganlynol o'r strategaeth hon yn amlinellu'r ffyrdd eraill rydym yn bwriadu eu defnyddio i oruchwylio cymwysterau galwedigaethol.

Ein Strategaeth: ffyrdd eraill y mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio Cymwysterau Galwedigaethol

34. Er mai'r adolygiadau sector fydd sail ein strategaeth cymwysterau galwedigaethol, mae cymwysterau galwedigaethol yn rhan annatod o bob un o'n meysydd gwaith eraill. Rydym yn ymgysylltu â chymwysterau galwedigaethol mewn sawl ffordd arall, gan gynnwys y canlynol:
    - **dynodi** cymwysterau fel cymwysterau sy'n gymwys i'w defnyddio ar rai rhaglenni dysgu penodol a ariennir yn gyhoeddus;
    - **darparu cyllid grant** i ariannu trefniadau asesu cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau galwedigaethol;
    - **monitro** cymwysterau galwedigaethol (gan gynnwys cymwysterau Sgiliau Hanfodol);
    - **monitro** cyrff dyfarnu;
    - ymdrin â materion a nodir drwy **ymyriadau rheoliadol**;
    - **comisiynu** cymwysterau newydd a goruchwylio'r broses o'u **datblygu** mewn achosion lle y dylem nodi bod cyfyngiad yn briodol;
    - cynnal **gwaith ymchwil** i faterion sy'n gysylltiedig â chymwysterau galwedigaethol.

Dynodi cymwysterau fel cymwysterau sy'n gymwys i'w defnyddio ar rai rhaglenni dysgu penodol a ariennir yn gyhoeddus

35. Lle bo corff dyfarnu yn awyddus i un o'i gymwysterau fod yn gymwys i'w ddefnyddio ar rai cyrsiau penodol a ariennir yn gyhoeddus, bydd y corff dyfarnu fel arfer yn gwneud cais i Cymwysterau Cymru nodi bod y cymhwyster yn gymhwyster 'Dynodedig'. Yr eithriad i hyn yw pan fyddwn wedi cyhoeddi meini prawf cymeradwyo penodol ar gyfer cymwysterau a restrir ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol - ac os felly, bydd angen cais manylach er mwyn nodi bod y cymhwyster yn gymhwyster 'Cymeradwy'. Mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir neu ddarparwyr dysgu eraill a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ddefnyddio dim ond cymwysterau a Ddynodwyd neu a Gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru ar gyrsiau i ddysgwyr o dan 19 oed. Fodd bynnag, yn ogystal, mae rhai trefniadau ariannu eraill ar gyfer dysgwyr dros 19 oed hefyd yn nodi y dylid defnyddio cymwysterau Dynodedig neu Gymeradwy.

36. Wrth ystyried p'un a ddylid Dynodi cymhwyster, rydym yn defnyddio rhestr safonol o feini prawf ar hyn o bryd er mwyn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r canlynol:
    - p'un a oes tystiolaeth o alw wedi'i gadarnhau am y cymhwyster gan garfan benodol o ymgeiswyr yng Nghymru;
    - p'un a oes tystiolaeth bod y cymhwyster yn berthnasol, lle y bo'n briodol, mewn cyd-destun Cymreig (er enghraifft, cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a pholisïau yng Nghymru);
    - p'un a oes tystiolaeth bod y cymhwyster yn briodol ar gyfer yr ystodau oedran a ddewiswyd. Yn arbennig, os caiff cymhwyster ei ddyfarnu'n bennaf i gwrs addysg neu hyfforddiant a astudir fel arfer gan ddysgwyr cyn 16 oed, ni ddylai'r cymhwyster dystio cymhwysedd galwedigaethol na chanolbwyntio ar alwedigaethau penodol - yn hytrach, dylai gynnig cyflwyniad cyffredinol i sector diwydiant;
    - p'un a oes tystiolaeth bod cyrff proffesiynol perthnasol, cynrychiolwyr pwnc neu gynrychiolwyr diwydiant o blaid dynodi'r cymhwyster yng Nghymru.

37. Yn 2016/17, byddwn yn adolygu ein polisi mewn perthynas â dynodi cymwysterau a all arwain at ddiwygiadau i'r broses ac, o bosibl, i'r meini prawf. Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw gynigion ar gyfer newid.



Darparu cyllid grant i ariannu trefniadau asesu cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau galwedigaethol

38. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, a gall dysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol ddisgwyl yn rhesymol y dylid gallu eu hasesu ar gyfer y cymwysterau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae miloedd o gymwysterau galwedigaethol ar gael yn y farchnad gymwysterau gystadleuol yng Nghymru, a gall costau darparu adnoddau priodol i garfan fach o'r farchnad ymddangos yn rhy uchel i gyrff dyfarnu. Er mwyn annog cyrff dyfarnu (y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u lleoli yn Lloegr) i ddarparu a chefnogi trefniadau asesu cyfrwng Cymraeg, mae Cymwysterau Cymru yn cynnig grantiau ar gyfer rhai o'r costau ychwanegol y mae cyrff dyfarnu yn mynd iddynt. Yn 2016, rydym wedi cyflwyno proses ymgeisio newydd i gyrff dyfarnu wneud cais am y grantiau hyn a byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd yr elfen hon o'n strategaeth cymwysterau galwedigaethol yn 2017.

Goruchwyliaeth reoliadol dros gymwysterau Sgiliau Hanfodol

39. Lansiwyd y gyfres Sgiliau Hanfodol gyfredol yn 2015 yn dilyn diwygiadau eang i'r strategaeth asesu, a oedd yn berthnasol i gyfres cymwysterau flaenorol Sgiliau Hanfodol Cymru. Cyflwynwyd y diwygiadau o dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn dilyn yr Adolygiad o Gymwysterau yn 2012 ac fe'u cynlluniwyd i ymdrin â'r gwendidau sylweddol a nodwyd yn y gyfundrefn asesu a oedd yn bodoli ar y pryd. Cynlluniwyd y cymwysterau Sgiliau Hanfodol i asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn dysgu, gweithio a byw'n llwyddiannus - ac er mwyn darparu dilyniant clir o ran Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif, Llythrennedd Digidol a Chyflogadwyedd.

40. Mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn asesu sgiliau sy'n berthnasol i bob maes gwaith, fwy neu lai, ac sy'n bwysig ar gyfer y meysydd gwaith hynny. Maent hefyd yn ofyniad gorfodol ar gyfer rhaglenni dysgu eraill a ariennir yn gyhoeddus, megis prentisiaethau. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd llawer o ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster galwedigaethol a ariennir yn gyhoeddus hefyd yn astudio ar gyfer un cymhwyster Sgiliau Hanfodol neu fwy - felly am y rhesymau hyn, ymhlith eraill, byddwn yn parhau i oruchwylio'r cymwysterau hyn fel rhan o'n strategaeth cymwysterau galwedigaethol.

41. Yn sgil cyflwyno'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig yn 2015, daeth nifer o heriau i'r amlwg: i gyrff dyfarnu, darparwyr dysgu, cyflogwyr a dysgwyr. Rydym wedi bod yn monitro ac yn cefnogi (drwy gyllid grant) y broses o ddatblygu a chyflwyno adnoddau asesu ar gyfer y cymwysterau gan y pedwar corff dyfarnu sy'n cydweithio i ddyfarnu'r cymwysterau hyn. Rydym hefyd wedi bod yn ymgysylltu â darparwyr dysgu er mwyn ceisio deall yr heriau a wynebwyd ganddynt ac er mwyn nodi arfer da wrth oresgyn yr heriau hyn.

42. Ddechrau 2017, byddwn yn cynnal adolygiad gwerthusol o'r broses o gyflwyno'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol er mwyn nodi i ba raddau y mae'r cymwysterau yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion dysgwyr - a byddwn hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r system gymwysterau yn effeithiol wrth gyflwyno'r cymwysterau hyn. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau erbyn haf 2017, ynghyd â'n cynigion ar gyfer unrhyw gamau gweithredu, a all gynnwys gweithgareddau monitro yn y dyfodol.

Monitro Cymwysterau Galwedigaethol

43. Rydym yn cyflwyno rhaglen o waith monitro cymwysterau galwedigaethol ochr yn ochr â'r rhaglen o adolygiadau sector ac er mwyn canolbwyntio ar gymwysterau a grwpiau o gymwysterau na chânt eu targedu gan yr adolygiadau sector. Bydd hyn yn ein galluogi i ehangu cwmpas ein gwaith craffu er mwyn sicrhau y caiff cymwysterau galwedigaethol eu monitro'n effeithiol. Gobeithio y bydd cynyddu ein gweithgareddau monitro yn y fath fodd yn dangos i gyrff dyfarnu bod gennym ddiddordeb brwd yn ansawdd y broses o asesu cymwysterau galwedigaethol.

44. Byddwn yn pennu ein cynlluniau monitro yn rheolaidd er mwyn i ni allu bod yn ddigon ymatebol i faterion a all godi - gan weithredu ar yr un pryd mewn modd strategol wrth ddewis cymwysterau i'w monitro. Byddwn yn ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu pa gymwysterau i'w monitro. Rydym yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar gymwysterau sy'n bodloni un neu fwy o'r disgrifiadau canlynol:
    - yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus;
    - lefelau cofrestru ac ardystio cymharol uchel;
    - naill ai cymwysterau nad ydynt wedi'u targedu gan adolygiadau sector neu gymwysterau a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn dilyn adolygiad sector neu weithgaredd arall;
    - yn asesu meysydd gwaith lle mae diogelwch yn hanfodol;
    - yn bodloni gofyniad i ymarfer neu drwydded i ymarfer;
    - yn darparu mynediad i Addysg Uwch;
    - y rheini sy'n dangos tueddiadau a phatrymau sy'n gysylltiedig â chwynion, digwyddiadau neu wybodaeth a gafwyd am gymwysterau.

45. Ar ôl ystyried yr holl ffactorau hyn, mae'r grwpiau o gymwysterau a ddewiswyd ar gyfer gwaith monitro cymwysterau galwedigaethol ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn:

    Cymorth Cyntaf
    Diogelwch Bwyd
    Iechyd a Diogelwch.

46. Byddwn yn cymharu ac yn cyferbynnu gwybodaeth a thystiolaeth o wahanol gyrff dyfarnu ac yn canolbwyntio ar y safonau asesu a bennir gan gyrff dyfarnu; eu prosesau sicrhau ansawdd allanol; y canllawiau a ddarperir ganddynt i ddarparwyr dysgu - ac i ba raddau y mae hynny'n ddigonol i ddiwallu anghenion. Rydym yn debygol o gynnal rhai trafodaethau wyneb-yn-wyneb a/neu grwpiau ffocws gyda darparwyr dysgu a/neu ddysgwyr er mwyn cael adborth gan y rhanddeiliaid hyn - ac mae'n bosibl y byddwn yn cynnwys arbenigwyr pwnc wrth gynnal rhywfaint o'r gwaith.

47. Byddwn yn nodi ein llinellau ymholi craidd ar gyfer pob gweithgaredd monitro, ac mae'r rhain yn debygol o fod yn wahanol gan ddibynnu ar y cymwysterau a gaiff eu monitro, y cyrff dyfarnu sy'n dyfarnu'r cymwysterau a'r wybodaeth sydd gennym eisoes am bob cymhwyster.

48. Byddwn yn cyflwyno ein canfyddiadau ac, os byddwn yn nodi diffygion yn achos cyrff dyfarnu unigol, byddwn yn ysgrifennu atynt yn unigol er mwyn nodi ein pryderon a gofyn iddynt weithredu'n unol â hynny.

Y gweithgareddau monitro a chydymffurfio rydym yn ymgymryd â hwy mewn perthynas â chyrff dyfarnu

49. Mae'r rhan fwyaf o gyrff dyfarnu a reoleiddir yn cynnig cymwysterau galwedigaethol, felly mae'r rhan fwyaf o'n busnes arferol hefyd yn sail i'n gwaith mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol. Mae archwiliadau o gyrff dyfarnu yn enghraifft o hyn, lle y byddwn yn ystyried i ba raddau y mae cyrff dyfarnu dethol yn cydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Safonol.

50. Byddwn yn canolbwyntio i ddechrau ar archwilio'r cyrff dyfarnu sy'n dyfarnu'r nifer fwyaf o dystysgrifau yng Nghymru. Bydd ein llinellau ymholi ar gyfer pob archwiliad yn amrywio gan ddibynnu ar y wybodaeth a ddelir gennym am y corff dyfarnu a'r ffactorau sy'n peri risg, yn ein barn ni, mewn perthynas â'r corff dyfarnu hwnnw.

51. Mae'r broses archwilio yn debygol o gynnwys dadansoddiad desg o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a geir gan y corff dyfarnu, dadansoddiad manwl o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddelir gennym, ac archwiliad ar y safle o hyd priodol gan ganolbwyntio ar y llinellau ymholi allweddol. Caiff canfyddiadau pob archwiliad eu cyflwyno mewn adroddiad a fydd ar gael i'r corff dyfarnu. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu unrhyw bryderon neu argymhellion a wneir gennym.

Ymdrin â materion a nodir drwy ymyriadau rheoliadol

52. Drwy ein gwaith ar adolygiadau sector, gwaith monitro a materion sy'n deillio o weithgareddau archwilio, rydym yn debygol o nodi materion lle y mae angen gwelliannau neu newidiadau mwy sylweddol er mwyn sicrhau bod y cymwysterau, neu'r system, yn fwy effeithiol. Mae amrywiaeth o adnoddau rheoliadol y gallwn eu defnyddio er mwyn rhoi newidiadau o'r fath ar waith. Nodir ein pwerau 'gorfodi', y gallwn eu gweithredu o dan amgylchiadau penodol, yn ein polisi 'Cymryd camau pan aiff pethau o chwith' - ond mae nifer o opsiynau ar gyfer gwneud newidiadau cyn y cymerir camau gorfodi.

53. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys, er enghraifft:
    - ysgrifennu at gorff dyfarnu er mwyn gofyn iddo nodi sut y mae'n bwriadu ymdrin â mater;
    - cyflwyno amod cydnabod safonol newydd ar gyfer pob corff dyfarnu perthnasol mewn perthynas â chymwysterau penodol, disgrifiadau o gymwysterau, amgylchiadau a/neu gategorïau o ddysgwyr;
    - gosod amod cydnabod arbennig ar un corff dyfarnu penodol neu fwy;
    - ychwanegu ystyriaethau ychwanegol at y broses ar gyfer Dynodi cymwysterau;
    - cyflwyno amod Cymeradwyo newydd mewn perthynas â chymwysterau Cymeradwy;
    - rhestru cymwysterau, neu ddisgrifiadau o gymwysterau (gyda chytundeb Gweinidogion Cymru) ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol a chyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar eu cyfer.

Comisiynu a goruchwylio'r broses o ddatblygu cymwysterau galwedigaethol newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru

54. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau lle na fydd unrhyw gyfuniad o'r camau gweithredu uchod yn ymdrin â'r materion a nodwyd gennym - a lle y byddwn o'r farn bod angen cymwysterau galwedigaethol newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Yn y fath sefyllfa, gan ddefnyddio ein pwerau i gyfyngu cymwysterau blaenoriaethol, gallwn gomisiynu neu ddethol corff dyfarnu drwy gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r cam hwn yn gam sylweddol i'w gymryd, gyda goblygiadau parhaus o ran costau i'n sefydliad ni ein hun, ac nid yw'n gam y byddem yn ei ystyried ar chwarae bach nac heb ystyriaeth briodol. Fodd bynnag, os byddwn yn penderfynu, o ganlyniad i adolygiad sector neu unrhyw ymchwiliad arall, bod angen cymwysterau newydd yn benodol i Gymru, yna mae'n bosibl mai'r opsiwn mwyaf dichonadwy fyddai comisiynu un corff dyfarnu i'w datblygu. Nid dyma sut y byddwn yn gweithredu fel arfer mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol - dim ond ar ôl proses fanwl o ystyried opsiynau gweithredu eraill ac ar ôl ymgynghori'n eang ar gynigion o'r fath y byddem o bosibl yn cynnig cam o'r fath.

55. Lle y byddwn yn comisiynu gwaith i ddatblygu cymwysterau galwedigaethol, byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrff perthnasol yn y sector, arbenigwyr galwedigaethol a'r corff dyfarnu a gomisiynwyd, yn ogystal ag ymgysylltu â darparwyr dysgu, er mwyn sicrhau bod y cynhyrchion gorffenedig (cymwysterau newydd) yn effeithiol ac yn addas at y diben.

56. Un o fuddiannau comisiynu gwaith i ddatblygu cymwysterau i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru yw bod hynny'n cynnig y cyfle i sicrhau y caiff y cymwysterau eu datblygu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd - er mwyn gallu asesu dysgwyr yn eu dewis iaith.

57. Lle y caiff cymwysterau newydd eu comisiynu a'u cyflwyno i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru, bydd bob amser yn bwysig sicrhau bod cyfnod trosglwyddo effeithiol o'r hen gymwysterau i'r cymwysterau newydd ac na fydd dysgwyr o dan anfantais annheg o ganlyniad i fod yn rhan o'r garfan gyntaf i sefyll cymhwyster newydd. Byddwn bob amser yn ystyried pa rôl sydd orau i ni ymgymryd â hi er mwyn hyrwyddo neu gefnogi'r broses o baratoi'r gweithlu addysgu ac asesu pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno. Mae hyn yn debygol o gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu roi systemau cymorth priodol ar waith - neu, mewn rhai achosion, gallwn ymgymryd â rôl fwy gweithredol wrth hwyluso cymorth o'r fath lle y bo'n ddymunol ac yn bosibl i ni wneud hynny. Byddwn hefyd yn ceisio ymgysylltu â chyrff eraill sydd â rhan i'w chwarae yn hyn o beth, gan gynnwys cyrff proffesiynol.

Gwaith ymchwil mewn perthynas â Chymwysterau Galwedigaethol

58. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu tîm o ymchwilwyr ac ystadegwyr i'n galluogi i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn sail i'n prosesau gwneud penderfyniadau a datblygu polisïau. Byddwn yn datblygu rhaglen o waith ymchwil yn ystod y misoedd nesaf, ond rydym eisoes yn glir bod yn rhaid i'r gwaith ymchwil a wneir gennym ategu ymdrechion i reoleiddio cymwysterau galwedigaethol yn effeithiol. Rydym yn datblygu strategaeth ymchwil a dadansoddi a fydd yn rhoi ystyriaeth briodol i waith ymchwil i gymwysterau galwedigaethol.

59. Byddwn yn sicrhau y caiff adolygiadau sector yn y dyfodol eu hategu'n effeithiol gan ddata wedi'u llywio gan waith ymchwil addysgiadol a chywir. Er mwyn gallu gweithio'n fwy effeithiol â data, mae angen i ni bennu'r ffordd orau o sicrhau llifau gwybodaeth rheolaidd am nifer y bobl sy'n astudio cymwysterau ac yn eu cyflawni - ond hefyd y ffordd orau o reoli ceisiadau ad hoc am wybodaeth. Wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth rheoli data, byddwn yn nodi sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r ddau fath hyn o ofynion.

Gwerthuso'r Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol

60. Wrth weithredu'r Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol hon, rydym yn bwriadu gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol a'r system cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Byddwn yn gwerthuso pob un o'r meysydd gwaith o fewn y Strategaeth er mwyn nodi i ba raddau y mae'r gweithgaredd wedi llwyddo i gyflawni ei nodau. Ar gyfer adolygiadau sector, bydd y broses hon yn dibynnu ar y camau gweithredu a nodir ac a gymerir - a gall fod yn broses hirdymor. Byddwn yn gofyn am adborth parhaus ar ein gwaith ac yn ystyried sut y gallwn wella ein dulliau gweithredu. Bydd ein llwyddiant wrth wneud hynny yn dibynnu'n rhannol ar y lefel o ymddiriedaeth y byddwn yn ei meithrin gyda'r rhanddeiliaid y byddwn yn ymgysylltu â hwy, er mwyn iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus y gallant godi pryderon gyda ni - a byddwn yn gwneud ein gorau i feithrin yr ymddiriedaeth honno.

61. Fel y cyfryw, byddem yn croesawu adborth gan unrhyw un o'n rhanddeiliaid ar y cynigion a nodir yn y ddogfen hon, ein Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol gyntaf - ynghyd ag unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer gwella'r gwaith a wneir gennym. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi er mwyn rhoi'r sylw a'r ffocws haeddiannol i gymwysterau galwedigaethol, er mwyn i ni allu meithrin hyder bod y cymwysterau a gaiff eu hastudio yng Nghymru yn addas at y diben ac yn wirioneddol o'r radd flaenaf.

Adeilad Q2,
Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Printed on 75% recycled paper

© 2016 Cymwysterau Cymru